

12/07/21

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Gyda diwedd y tymor yn nesáu yn gyflym iawn ac yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog wythnos ddiwethaf, hoffwn rannu trefniadau gyda chi ar gyfer dychwelyd ym mis Medi.

| Dyddiad         | Gweithgaredd                              |
|-----------------|---|
| Iau 02/09/21    | HMS i staff yr ysgol – dim disgyblion     |
| Gwener 03/09/21 | Blwyddyn 7 a 12 yn unig i fynychu'r ysgol |
| Llun 06/09/21   | Pob disgybl yn dychwelyd Bl.7-13eg        |

Fel y cyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg ddydd Gwener diwethaf, bydd newidiadau allweddol i drefniadau ysgolion o fis Medi 2021. Rydym yn aros i dderbyn 'Fframwaith Penderfyniadau Rheoli Heintiau Covid-19 Lleol' oddi wrth Llywodraeth Cymru ar gyfer manylion llawn o'r newidiadau, ond rydym yn gwybod y bydd y newidiadau canlynol yn dod i rym yn syth:

- Ni fydd rhaid i ddigybllion ddefnyddio gorchuddion wyneb yn rheolaidd mewn ystafelloedd dosbarth, ond fe fydd rhaid eu defnyddio ar y coridorau, y neuaddau a'r ffreutur ac ar gludiant ysgol.
- Ni fydd grwpiau cyswllt/swigod yn cael eu hargymell mwyach – bydd Profi, Olrhain, Diogelu (POD) yn arwain ar nodi cysylltiadau agos staff a dysgwyr sy'n profi'n bositif, yn yr un modd ag y byddent ar gyfer unrhyw brofion unigol eraill y tu allan i'r ysgol/lleoliad.
- Byddwn yn annog ein disgyblion i brofi cyn dychwelyd i'r ysgol. Ni fydd disgwyl i ddisgyblion na staff i weithredu profion LFT dros yr haf.
- Bydd amserau'r dydd yn dychwelyd i'r amserau arferol (gweler isod).

| CA3 (Bl. 7-9) |                        | CA4 a 5 (Bl. 10-13) |                        |
|---------------|------------------------|---------------------|------------------------|
| Amser         | Gweithgaredd           | Amser               | Gweithgaredd           |
| 08:00 – 08:30 | Clwb brecwast ar gael  | 08:00 – 08:30       | Clwb brecwast ar gael  |
| 08:30         | Cofrestru              | 08:30               | Cofrestru              |
| 09:00         | Gwers 1                | 09:00               | Gwers 1                |
| 09:50         | Egwyl                  | 09:50               | Gwers 2                |
| 10:10         | Gwers 2                | 10:40               | Egwyl                  |
| 11:00         | Gwers 3                | 11:00               | Gwers 3                |
| 11:50         | Cinio                  | 11:50               | Gwers 4                |
| 12:40         | Gwers 4                | 12:40               | Cinio                  |
| 13:30         | Gwers 5                | 13:30               | Gwers 5                |
| 14:20         | Gwers 6                | 14:20               | Gwers 6                |
| 15:10         | Diwedd y diwrnod ysgol | 15:10               | Diwedd y diwrnod ysgol |



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

Ebost: [SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net](mailto:SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR  
MEWN POBL

Aur



Byddwn yn cadarnhau mesurau a threfniadau llawn Cofid gyda chi ar ddechrau'r tymor.

Yn dilyn y cyfnod trosglwyddo, rydym yn **disgwyl y bydd pob disgybl yn gwisgo'r wisg ysgol newydd ym mis Medi**. Gwych yw derbyn nifer o sylwadau hynod o bositif am ymddangosiad ein disgyblion yn y wisg newydd. Mae'r manylion ar gyfer y wisg ar gael [yn y llythyr yma](#) ac ar werth gan gwmni Bergoni. Fel y nodwyd yn y llythyr, roedd caniatâd gan ein disgyblion i wisgo'r 'hen wisg' yn ystod 12 mis y cyfnod trosglwyddo hyd at Fedi 2021. Nid yw trowsus tracwisg neu socasau (leggings) yn addas fel rhan o'r wisg ysgol. Gweler y safwe ([Gohebiaeth :: Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe](#)) am fanylion llawn y wisg ysgol, gan gynnwys ein disgwyliadau ar gyfer esgidiau ysgol ac ar gyfer tlysau yn y trwyn. Diolch i ran helaeth o'n disgyblion a'n rhieni am gefnogi ein disgwyliadau gyda'r wisg ysgol yn ddyddiol fel bod ymddangosiad ein disgyblion yn destun balchder. Disgwylir i ddisgyblion hefyd ddod ag offer dysgu eu hun at eu defnydd personol nhw.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch i Mrs Donna Cornelius a Miss Rebecca Cornelius, sydd yn ein gadael ar ddiwedd y flwyddyn, am eu cyfraniad arbennig wrth gefnogi ein disgyblion i lwyddo dros nifer fawr o flynyddoedd bellach. Dymuniadau gorau i chi Mrs Cornelius a Miss Cornelius ar ran cymuned yr ysgol.

Diolch i chi, ein rhieni, am eich cefnogaeth barhaus dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae ymateb ein disgyblion i'r holl heriau maent wedi eu hwynebu wedi bod yn arbennig. Gobeithio y cawn flwyddyn gyda llai o darfu ar addysg ein disgyblion ble byddwn hefyd yn gallu darparu profiadau allgyrsiol cyfoethog iddynt. Gobeithio y cewch chi gyd gyfle i ymlacio dros yr haf a ga i ddymuno gwyliau da i chi gyd.

Yn ddiffuant,

*Simon Davies*



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

Ebost: [SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net](mailto:SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR  
MEWN POBL

Aur

